

Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:
Y Siambr – Y Senedd

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/12838) yn:
<http://senedd.tv/cy/12838>

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Mai 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

68

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Dechreuodd yr eitem am 14.22

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

Dechreuodd yr eitem am 15.05

Gofynnwyd y 3 cwestiwn.

4 Cwestiynau Amserol

Ni chyflwynwyd unrhyw Gwestiynau Amserol



5 Datganiadau 90 eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.17

Gwnaeth Mabon ap Gwynfor ddatganiad am – Dathlu 50 mlwyddiant rheilffordd bach y Bala.

6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Cymunedau Lleol

Dechreuodd yr eitem am 15.18

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM7992 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

Yn credu bod Llywodraeth Lafur Cymru yn gadael cymunedau lleol i lawr.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
15	0	36	51

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 [Lesley Griffiths \(Wrecsam\)](#)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i amddiffyn cymunedau ledled Cymru rhag methiant Llywodraeth y DU i gymryd yr argyfwng costau byw o ddifrif a'i gwrthodiad i wrthdroi'r toriad niweidiol i gredyd cynhwysol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
26	10	15	51

Derbyniwyd gwelliant 1.

Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:

NDM7992 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i amddiffyn cymunedau ledled Cymru rhag methiant Llywodraeth y DU i gymryd yr argyfwng costau byw o ddifrif a'i gwrthodiad i wrthdroi'r toriad niweidiol i gredyd cynhwysol.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
36	0	15	51

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Economi Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.23

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM7993 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

Yn gresynu at stiwardiaeth wael economi Cymru gan Lywodraethau olynol Cymru.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
15	0	36	51

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

Yn credu bod stiwardiaeth economi Cymru gan lywodraethau olynol yng Nghymru wedi'i chyfyngu o ganlyniad i beidio â chael ysgogiadau economaidd ac ariannol llawn gwlad annibynnol, sef yr unig ffordd gynaliadwy o sicrhau bod Cymru'n cyflawni ei photensial economaidd llawn

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
10	0	41	51

Gwrthodwyd gwelliant 1.

Gan fod y Senedd wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliant i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 17.24 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatáu egwyl technegol cyn y Cyfnod Pleidleisio.

8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.26

9 Dadl Fer

Ni chyflwynwyd cynnig.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.29

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Mai 2022